

**Fframwaith Cynnwys
Defnyddwyr Gwasanaeth**

Cefnogi Pobl Cwm Taf

Chwefror 2014

1. Cyflwyniad:

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Fframwaith Gwasanaeth Defnyddwyr Gwasanaeth Cwm Taf. Mae wedi cael ei datblygu er mwyn darparu cyfeiriad ar gyfer ymgysylltiadau gyda defnyddwyr y Gwasanaeth trwy ymgynghoriad, partneriaeth a chydweithio ac er mwyn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru.

Bydd yn cael ei mabwysiadu gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh) Cwm Taf, y timau Cefnogi Pobl sy'n gweithio yn y ddau Awdurdod Lleol a Darparwyr a Landlordiaid sy'n darparu gwasanaethau trwy gyllid Cefnogi Pobl.

Mae'n rhaid i ddull gweithredu Cwm Taf gydnabod y bydd amrywiaeth o strwythurau ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu defnyddio er mwyn galluogi pobl i gyfranogi a rhannu eu safbwyntiau a'u profiadau. Ni fydd un ffordd, un dull nac un broses yn ddigonol. Bydd rhaid i'n dull gydnabod amrywiaeth o ddigwyddiadau a chyfleoedd. Bydd rhai yn digwydd yn naturiol tra bydd eraill yn cael eu cynllunio. Yn bennaf oll, bydd gofyn i'r hyn y byddwn yn eu gwneud er mwyn ymgysylltu gyda phobl fod yn greadigol gan addasu i gwrdd ag anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.

Gall cynhwysiant defnyddwyr gwasanaeth fod mewn sawl ffurf a gellir ei gyflawni mewn ffurf wahanol. Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau fod safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu clywed er mwyn gwneud newidiadau real a chynaliadwy.

Rydym yn diffinio Cynhwysiant Defnyddwyr Gwasanaeth fel 'cynhwysiant defnyddwyr gwasanaeth mewn rheolaeth, cynllunio a darpariaeth gwasanaethau.' Mae'r diffiniad hwn yn pwysleisio y dylai cynhwysiant gwmpasu ystod llawn profiadau pobl, nid y pethau y mae darparwyr a chomisiynwyr yn credu sy'n bwysig gan weithredu lefelau gwahanol o gynhwysiant: mae rhoi gwybodaeth i bobl yn ddechrau ond gall cynhwysiant ddatblygu i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddylanwadu ar gynllunio eu gwaith eu hunain neu ddarparu gwasanaethau.

Mae cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth yn broses ac yn ddeiliant. Mae'r modd y mae pobl yn cyfranogi'n bwysig, yn ogystal â'r hyn sy'n cael ei gyflawni o ganlyniad i'w cyfranogiad. Dylai cyfranogiad fod yn broses weithredol lle gall Defnyddwyr Gwasanaeth ddylanwadu ar bolisi, cynlluniau'r gwasanaeth a gwerthuso'r ddarpariaeth trwy ddulliau a strwythurau amrywiol. Fodd bynnag, ni ddylai cyfranogiad gael ei gymysgu gydag ymgynghoriad a dylai ei ddeiliant gael ei gofnodi er mwyn cynorthwyo gyda phenderfyniadau sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth.

Er mwyn i ni fedru cyflawni hyn, mae'n bwysig tanlinellu'r gwahaniaethau rhwng ymgynghoriad a chyfranogiad gan y byddant yn dylanwadu'r modd yr ydym yn gwneud pethau:

- **Mae ymgynghoriad yn cael ei weld fel:** proses ffurfiol sy'n gofyn am safbwyntiau grwpiau ac unigolion perthnasol.

- **Mae cyfranogiad yn cael ei weld fel:** pobl yn bod yn weithredol yn natblygiad polisi, gwerthusiad gwasanaeth, gwelliant gwasanaeth, cynllunio gwasanaeth a darpariaeth.
- **Mae cyfranogiad tenant yn cael ei weld fel:** landlordiaid neu eu hasiantau yn gweithio gyda thenantiaid er mwyn cytuno sut dylai eu cartrefi a'u hamgylcheddau gael eu rheoli. Dynodi pa wasanaethau a gwelliannau i wasanaethau sydd eu hangen, amlinellu sut y byddant yn gweithio gyda thenantiaid er mwyn cyflawni'r hyn sydd fwyaf pwysig a beth sy'n flaenoriaeth.

2. Cefndir

Mae gofyn i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh) Cwm Taf 'ddatblygu strwythur/fframwaith y gall defnyddwyr gwasanaeth gyfranogi yn ei ddatblygiad gan gomisiynu ac adolygu gwasanaethau cefnogol.' Canllawiau GCCP (Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl,) Mehefin 2013, tud 14.

Gall nifer o brosiectau a darparwyr gofal arddangos profiad helaeth ac ymarfer da yn barod, parthed cyfranogiad defnyddwyr. Fodd bynnag, mae natur a lefel y cyfranogiad yn amrywio'n fawr mewn rhai ardaloedd. Mae llawer o'r hyn y mae defnyddwyr gwasanaeth yn eu rhannu yn cael eu colli neu heb gael eu cofnodi'n ffurfiol er mwyn darparu tystiolaeth all gynorthwyo gyda chynllunio'r gwasanaeth a chynorthwyo gyda'r broses gomisiynu. Ni all hyn barhau a bydd pob prosiect, gobeithio, yn chwarae ei ran i hwyluso gweithgareddau, digwyddiadau, arolygon, holiaduron a chyfarfodydd prosiect sydd â'r gallu i sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaeth gyfranogi mewn modd sy'n ystyrlon.

3. Nodau ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth

Mae'r Fframwaith Cynnwys Defnyddwyr Gofal wedi ei gynllunio i hybu manteision a chyfleoedd ar gyfer holl ddefnyddwyr y gwasanaeth i gyfranogi yn natblygiad a darpariaeth gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chefnogi tai ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Mae nodau cynhwysiant y defnyddwyr gwasanaeth yr ydym wedi eu sefydlu yn cydnabod bod cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, drwy wrando ar eu profiadau a rhoi cyfle iddynt fynegi eu safbwyntiau, syniadau a'u dewisiadau ar lefel weithredol a strategol, yn ffordd bwysig i wella gwasanaethau yn ogystal â datblygu hyder a gallu pobl.

Bwriad y fframwaith yw:

- Cydnabod y dylid cefnogi pobl i gyfranogi mewn amryw o ffyrdd gan wneud y gorau o sgiliau, adnoddau a pherthnasau sy'n cefnogi darparwyr a defnyddwyr y gwasanaeth.
- Sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda chymaint o bobl ag sydd yn bosibl mewn modd sy'n briodol ac yn ystyrlon.

- Sicrhau cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth yn narpariaeth a datblygiad gwasanaethau sydd o'r safon uchaf.
- Sicrhau fod prosiectau'n cefnogi pobl i gyfranogi er mwyn ffurfio a dylanwadu ar y modd y mae eu prosiectau a'u rhaglenni'n gweithredu.
- Cydnabod fod gan ddarparwyr cefnogaeth rôl bwysig i'w chwarae wrth ffurfio a dylanwadu ar raglen drwy amddiffyn safbwyntiau'r defnyddwyr gwasanaeth a'u cefnogi i fynegi eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau'r bobl y gofynnwyd iddynt eu cynrychioli.

Trefnodd Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol (CDRh) Cwm Taf ddigwyddiad ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth Rhanbarthol er mwyn ymgynghori ar ddatblygu'r Fframwaith Defnyddwyr Gwasanaeth. Cwblhawyd holiadur byr yn ogystal gan y defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn bresennol yn y cyfarfod Darparwyr Gwasanaeth Rhanbarthol. Mae'r diagram isod yn nodi'r sylwadau gafodd eu gwneud mewn perthynas â'r cwestiwn isod:

Sut ydych chi am gael eich cynnwys gyda'ch Darparwr Cefnogaeth?



Mae ymgynghoriad defnyddwyr gwasanaeth wedi nodi'r angen i ystyried yr uchod cyn y dylid cynnal unrhyw gyfarfodydd gyda darparwyr, gweithgareddau ac ati. Dylai'r sylwadau hyn fod yn ganolbwynt i unrhyw gynhwysiant defnyddwyr gwasanaethau'r dyfodol.

Allwedd:

☺☺ = Cytunodd y grŵp mai dyma'r sylwadau a ystyriwyd i fod yn flaenoriaeth.

4. Nodau

Mae'r Canllawiau Grant Cynllun Cefnogi Pobl yn nodi fod angen i ddarparwyr gwasanaeth a darparwyr:


- Sicrhau fod Comisiynwyr, Darparwyr Gwasanaeth ac yn fwy pwysig, Defnyddwyr Gwasanaeth yn cael eu cynnwys yng nghynllunio, datblygiad a chomisiynu gwasanaethau ac ymatebion i wasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion a blaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt ar lefel leol a rhanbarthol. (Canllawiau GCCP, Mehefin 2013, tud 19)
- Sicrhau fod profiad defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu at ddatblygiad prosiect a gwelliannau gwasanaeth a gytunwyd arnynt oddi fewn i Gynllun Comisiynu Cefnogi Pobl. (Canllawiau GCCP, Mehefin 2013, tud 19)
- Sicrhau fod comisiynwyr, darparwyr gwasanaeth ac yn fwy pwysig, Defnyddwyr Gwasanaeth yn cynorthwyo gyda datblygiad manylebau gwasanaeth lleol a rhanbarthol. (Canllawiau GCCP, Mehefin 2013, tud 19)

Oddi fewn ac ar draws y gwasanaethau, mae cyfle arwyddocaol ar gyfer datblygiad ymarferion a gweithgareddau sy'n hybu cyfranogiad defnyddwyr yn natblygiad a darpariaeth gwasanaethau cefnogol sy'n gysylltiedig â thai. Er mwyn cefnogi'r nodau uchod, amlinellwyd yr amcanion canlynol:

- Creu cyfleoedd am ddewislen o weithgareddau ymgynghorol ac ymgysylltiol i'w darparu ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd ag amrywiaeth o anghenion
- Cynnig modd i ddarparwyr gwasanaeth a chomisiynwyr weld sut all tystiolaethau o brofiadau defnyddwyr gynorthwyo cyfeiriad y gwasanaeth a'r broses gomisiynu.
- Cydnabod swyddogaeth darparwyr cefnogaeth er mwyn sicrhau cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth yn natblygiad a darpariaeth y gwasanaethau y maent hwy ac eraill yn eu darparu.
- Creu dull gweithredu nad yw'n cael ei ganoli gymaint ac sy'n cydnabod fod prosiectau a'r bobl sy'n eu cynnal yn meddu ar y sgiliau perthnasol er mwyn sicrhau fod pobl yn medru ymgysylltu'n gywir ac mewn modd sy'n ystyrlon.

5. Y dull arfaethedig:

Mae'r dull arfaethedig yn cynnwys nifer o Haenau parhaol. Mae angen dyfeisgarwch a dychymyg er mwyn arddangos yn llwyddiannus sut mae pobl yn cyfranogi yn natblygiad a darpariaeth gwasanaethau cefnogol sy'n gysylltiedig â thai ar lefel prosiect.



Mae'r pyramid haenog sy'n dangos y dull arfaethedig yn nodi gwahanol Haenau Cynhwysiant Defnyddwyr Gwasanaeth. Esbonnir pob un ohonynt mewn mwy o fanylder isod:

Haen 1: Lefel y Prosiect

Mae'r Haen hon yn cael ei gweithredu ar lefel prosiect. Byddai'n cynnwys y canlynol:

- Ymgysylltiad gweithredol rhwng staff cefnogol a defnyddwyr y gwasanaeth ar lefel prosiect.
- Casglu safbwyntiau Defnyddwyr Gwasanaeth ynghylch y gefnogaeth y maent yn eu derbyn a gwelliannau y dymunant eu gweld a thystiolaeth o weithredu o ganlyniad i hynny.
- Cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth hysbysu a ffurfio'r modd y mae'r prosiect yn gweithredu
- Cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth drafod:
 - gwybodaeth feintiol ac ansoddol
 - cynlluniau datblygu
 - polisïau a gweithdrefnau

- gwybodaeth am faterion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Haen 2: Dull cydweithiol gyda grwpiau angen

Yn ysbryd cydweithio, mae Haen 2 wedi ei chynllunio i gynorthwyo i ddod ag amrywiaeth eang o bobl ynghyd sy'n barod i rannu eu safbwyntiau a'u profiadau o ddefnyddio prosiectau gwahanol neu brosiectau tebyg a ddarperir gan ddarparwyr cefnogaeth wahanol.

Mae'r haen hon yn cynnwys cydweithio rhwng darparwyr sy'n cefnogi yr un grwpiau angen (e.e Cam-drin Domestig) neu ddarparwyr sydd yn cefnogi grwpiau sydd ag anghenion tebyg (e.e anabledd corfforol ac Afiechyd Cronig) neu'r grwpiau angen rheini allai fod yn rhannu nodwedd gyffredin (e.e. Cam-drin Sylweddau a Cham-drin Alcohol.)

Cynigir y dylai sefydliadau ddod â defnyddwyr gwasanaeth ynghyd er mwyn:

- ystyried deilliannau unrhyw weithgareddau sydd wedi cael eu gwneud er mwyn hybu ac annog cyfranogiad defnyddwyr ar lefel prosiect.
- rhannu eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau cefnogol sy'n gysylltiedig â thai.
- ystyried ansawdd y gwasanaeth y maent wedi ei dderbyn
- edrych ar ddeilliannau sydd wedi cael eu cyflawni er mwyn cynorthwyo i bennu perfformiad sy'n dderbyniol a phriodol.
- rhoi cyfleoedd i bobl adnabod unrhyw rwystrau i'w cynhwysiant a'u cyfranogiad.
- sicrhau fod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys yng nghynllunio, datblygu a chomisiynu gwasanaethau.
- sicrhau fod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynghori a'u hysbysu o faterion sy'n ymwneud â datblygiadau a gwelliannau a gynlluniwyd i wasanaethau.
- sicrhau fod profiadau pobl yn cyfrannu at ddatblygiad prosiect a gwelliannau gwasanaeth a nodir yn y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl.
- sicrhau fod defnyddwyr gwasanaeth yn cynorthwyo gyda datblygu cynlluniau a manylebau gwasanaethau lleol a rhanbarthol.

Haen 3: Monitro a Gwerthuso

Bydd yr Haen hon yn cynnwys gwerthuso cyfranogiad y defnyddiwr gwasanaeth a gellir gwneud hynny trwy ddefnyddio unrhyw un o'r lefelau is neu:

- Ddal cipolwg o gynhwysiant defnyddwyr gwasanaeth yn seiliedig ar y prosiect.
- Dal cipolwg o safbwyntiau pobl o'u profiadau o gael eu cefnogi gan y prosiect a'u safbwyntiau o'r modd y gall y gwasanaethau y maent wedi eu derbyn gael eu gwella neu eu haddasu.

- Rhoi tystiolaeth o'r modd y mae gwasanaethau wedi gwella yn sgil safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth.
- Bydd rhaid i bob prosiect gael gwybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u rhannu â defnyddwyr gwasanaeth a hynny mewn fformat pwrpasol a thrwy ddulliau amrywiol.

Haen 4: Dylanwad Strategol

Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth, Darparwyr Cefnogaeth a'r Tîm Cefnogi Pobl yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn nodi a phwysleisio materion sydd wedi cael eu codi gan bob grŵp cleient.

Bydd materion o'r fath yn cael eu cyflwyno i Fforwm Darparwyr Rhanbarthol Cwm Taf, y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl a'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol er gwybodaeth, ystyriaeth ac er mwyn medru gweithredu.

Bydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyfle i gynrychioli eu hunain a safbwyntiau pobl a grwpiau eraill y maent yn eu cynrychioli.

Pob Awdurdod Lleol i gasglu gwybodaeth am y grwpiau / digwyddiadau / cyfarfodydd sydd eisoes yn bodoli oddi fewn i'w darparwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl. Dylai'r rhestr yma gael ei hadolygu a'i diweddarau o leiaf un waith y flwyddyn.


Gellir darparu cofrestr i'r PCRh a fydd yn galluogi aelodau'r PCRh i ymweld â darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd hyn hefyd yn darparu cyfle i ofyn am gynhwysiant gan ddefnyddwyr gwasanaeth pan fydd angen gwneud hynny.

Ar hyn o bryd, ni themlir ei fod yn briodol i gael un person i gynrychioli holl safbwyntiau'r defnyddwyr gwasanaeth ar y PCRh. Os cytunir bod angen cynrychiolaeth ar y PCRh yn y dyfodol gan bobl sy'n cynrychioli'r grwpiau cleientiaid gwahanol yna byddwn yn gofyn i'r bobl sy'n ymwneud â'r digwyddiadau i enwebu unigolyn i'w cynrychioli.

6. Yr hyn y mae Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth yn ei olygu yng Nghwm Taf.

Gall gynhwysiant defnyddwyr gwasanaeth amrywio o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hysbysu am yr hyn sydd yn digwydd ag all effeithio arnynt i wneud penderfyniadau am y gwasanaeth y maent yn eu derbyn.

Mae'r pyramid cynhwysiant isod yn nodi'r lefelau amrywiol o gynhwysiant sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ardal Bro Taf.



7. Manteision cyfranogi ac ymarferion parhaol:

Er mwyn bod yn fanteisiol, mae'n rhaid i gynhwysiant defnyddwyr fod yn ystyrllon ac yn gynaliadwy gan wella safon y gwasanaeth a safon bywydau pobl.

Manteision.

- Cynhwysiant mewn modd cadarnhaol sy'n gweithio tuag at y nod o annibyniaeth gan ei fod yn gymorth i adeiladu hunanhyder a hunanbarch.
- Cynhwysiant sy'n sicrhau fod gwasanaethau yn adlewyrchu anghenion a dymuniadau'r bobl sy'n eu defnyddio.
- Mae cynhwysiant hefyd yn arwain at newid ac ymdeimlad o berchen a pherthyn.

- Mae cynhwysiant yn darparu cyfle i herio a gwneud newidiadau i'r modd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu.
- Mae cynhwysiant yn gwella cyfathrebiad drwy gael cyfarfodydd cyson a thrafodaethau cyson sy'n cynyddu dealltwriaeth ac sy'n gymorth i greu gwell perthnasau.
- Datblygu sgiliau newydd. Staff a defnyddwyr gwasanaeth yn dysgu sgiliau cyfranogi.
- Mwy o gyfleodd i ganfod rhagor ynghylch sut mae gwasanaeth yn cael ei redeg a beth y mae hynny'n ei olygu.
- Sicrhau fod gwasanaethau'n berthnasol i anghenion lleol.
- Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i leisio barn ar wasanaethau ac adnabod ymarfer da a meysydd sy'n achosi pryder.

8. Rhwystrau Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth


Rydym yn deall y gallai fod gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n perthyn i grwpiau sy'n agored i niwed flaenoriaethau pwysicach na bod yn rhan o ddulliau traddodiadol, ffurfiol o ymgynghori ar benderfyniadau strategol. Mae hyn yn berthnasol os fydd defnyddwyr gwasanaeth yn mynd trwy gyfnod o argyfwng. Cydnabyddir y bydd angen defnyddio technegau ymgynghorol mwy creadigol tebyg i'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd pryderon ynghylch llythrennedd a deall jargon.

Un o gryfderau'r Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru yw'r amrywiaeth eang o unigolion a'r grwpiau o gleientiaid sy'n cael eu cefnogi. Nid oes yr un dull gweithredu unigol i gyfranogiad a fydd yn briodol ac yn effeithiol ar gyfer pob gwasanaeth. Mae hefyd heriau gwahanol yn codi yn sgil y cyfnodau gwahanol o amser y mae unigolion yn ymgysylltu â phrosiectau. Mae gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau Cefnogi Pobl sgiliau cyfathrebu amrywiol. Mae gan rai alluoedd cyfyngedig i ddefnyddio iaith ac maent yn defnyddio arwyddion, symbolau a gwybodaeth weledol yn hytrach na lleferydd. Bydd rhaid i ddarparwyr deilwra strategaethau cyfranogi gan gadw hyn mewn cof. Mae nifer o wahanol gyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad a chyfranogiad sy'n amrywio o'r rhai sy'n seiliedig ar weithgaredd cymdeithasol i ddulliau mwy ffurfiol. Gall pob darparydd fabwysiadu'r rhai sy'n cyflawni'r gorau ar gyfer anghenion yr unigolyn a dull rheoli a nodweddion y darparydd.


Mae ardal sy'n nodi anawsterau yn ymgysylltu gyda phobl drwy ddefnyddio Gwasanaethau Cymorth fel y bo'r angen. Yn aml, ni fydd grŵp sydd wedi cael ei dynodi â thenantiaeth ac sydd wedi cael cymorth i roi eu materion cychwynnol mewn trefn eisiau cael ei gysylltu â gwasanaethau ac nid oes dim byd o'i le ar hynny. Er mwyn goresgyn hyn, cynigir y dylai prosiectau cymorth fel y bo'r angen weithio ar y cyd â phrosiectau Llety sy'n gwasanaethu'r un grwpiau o gleientiaid.

Mae'r diagram isod yn nodi'r sylwadau a wnaethpwyd mewn digwyddiadau Defnyddwyr Gwasanaeth Rhanbarthol a gynhaliwyd er mwyn ymgynghori ar ddatblygu'r Fframwaith Defnyddwyr Gwasanaeth mewn perthynas â'r cwestiynau isod:

Beth fyddai'n eich stopio rhag cyfranogi?



Beth allwn ni eu gwneud i'ch cynorthwyo i oresgyn rhwystrau?



Mae'r ymgynghoriad defnyddwyr gwasanaeth wedi nodi'r angen i ystyried yr uchod cyn mynd ati i ymgymryd â gweithgaredd ymgynghorol. Dylai'r materion/sylwadau hyn fod yn ganolbwynt i gynhwysiant defnyddwyr gwasanaeth y dyfodol.

Allwedd:

☺☺ = Cytunodd y grŵp mai dyma'r sylwadau a ystyriwyd i fod yn flaenoriaeth.


9. Dulliau o Ymgysylltu

Cynigir yn ogystal y dylai'r ymarferion canlynol barhau i gael eu hystyried yn ffyrdd cywir o ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth trwy ffyrdd amrywiol a dulliau gwahanol:


- Digwyddiadau Prosiect Penodol a Digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar Ddefnyddwyr Gwasanaeth
- Grwpiau prosiect a digwyddiadau cyfranogi
- Holiaduron ac Adborth Defnyddwyr:
- Digwyddiadau Rhanddeiliaid, Staff a Fforymau
- Ymchwil lleol a chenedlaethol
- Cefnogi Adolygu Darparwyr a Sicrwydd Ansawdd.

Mae'r diagram isod yn nodi'r sylwadau a wnaed yn ystod digwyddiadau'r Defnyddwyr Gwasanaeth Rhanbarthol a gynhaliwyd er mwyn ymgynghori ar ddatblygu'r Fframwaith Defnyddwyr Gwasanaeth mewn perthynas â'r cwestiynau isod:

Ym mha fodd yr hoffech chi gael eich cynnwys yng nghynlluniau'r dyfodol?



Sut fydddech chi'n hoffi i'ch lleisiau gael eu clywed yn yr PCRh?



Mae ymgynghoriad y defnyddiwr gwasanaeth wedi nodi angen i'r PCRh ystyried yr uchod wrth ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth ar unrhyw wasanaethau datblygu a chynllunio'r dyfodol.

Allwedd:

😊😊 = Cytunodd y grŵp mai dyma'r sylwadau a ystyriwyd i fod yn flaenoriaeth.

10. Y Camau Nesaf – Cynllun Gweithredu

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu fod y PCRh yn cydnabod fod angen gwella gwasanaeth cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yng Nghwm Taf. Mae'n cydnabod fod y mwyafrif o ddarparwyr yn defnyddio defnyddwyr gwasanaeth oddi fewn i'w mentrau, fodd bynnag dylai awdurdodau lleol

fod hefyd yn defnyddio defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y camau datblygol, comisiynu ac adolygu er mwyn cefnogi gwasanaethau i bobl.

Bydd y PCRh yn blatfform i hybu a monitro cynnwys defnyddwyr gwasanaeth ar lefel awdurdod lleol. Bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu er mwyn cefnogi gweithrediad y Fframwaith Defnyddwyr Gwasanaeth yn ardal Cwm Taf. Bydd yr PCRh yn sicrhau fod cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth yn parhau i gael ei gynnwys o hyd ar agenda'r PCRh.

Bwriad y Cynllun Gweithredu yw gwella effeithiolrwydd y rhaglen cefnogi pobl trwy gynyddu lefel cynhwysiant y defnyddiwr gwasanaeth yn y broses o wneud penderfyniadau.